WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 157A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan dîm a oedd yn cynnwys Dave Wilson, Lisa Williams, Allison Rees a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i benderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ond nid yw'r rhain wedi'u datblygu'n llawn eto ac ni chânt eu defnyddio'n effeithiol bob amser.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor weledigaeth a fframwaith ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ond nid yw'n glir eto beth fydd ffurf na maint darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol 7

Yn gyffredinol, mae'r swyddogion a'r Aelodau yn dangos dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ac mae'r Cyngor yn darparu cymorth parhaus i wella eu heffeithiolrwydd 8

Mae'r Cyngor yn ystyried amryw o opsiynau wrth benderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau ond nid yw'r rhain yn cael eu hegluro'n llawn bob amser mewn adroddiadau ac achosion busnes 9

Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n systematig â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau ac mae'n gallu dangos ei fod yn gwrando ar eu barn, ond nid yw'r adroddiadau ac achosion busnes yn egluro bob amser sut y bydd barn rhanddeiliaid yn cael ei hystyried wrth benderfynu newid gwasanaethau 11

Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n systematig i fonitro effaith ei benderfyniadau i newid gwasanaethau ar drigolion lleol 12

Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau penderfynu ac yn cyflwyno gwelliannau er mwyn rhoi sylw i'r gwendidau a nodir 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Llywodraethu yw'r modd y bydd cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y dull iawn, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli cyrff cyhoeddus, ac a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus i roi cyfrif am eu gwaith i'w cymunedau, i ymgysylltu â'u cymunedau a, lle bo'n briodol, i arwain eu cymunedau'[1].

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol, ac er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon sy'n ennyn ymddiriedaeth. Mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni a'r gostyngiad yn y setliadau i lywodraeth leol, ynghyd â'r cynnydd yn y galw am rai gwasanaethau yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad a lefel darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'n briodol i gyrff cyhoeddus geisio gwella'n barhaus. Gwneir mân newidiadau cynyddol i ddarpariaeth gwasanaeth ar lefel reolaethol a gweithredol yn rhan o'r broses benderfynu weithredol arferol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i gefnogi gan gynlluniau effeithiol a phrosesau trylwyr yn hollbwysig wrth benderfynu ynghylch newidiadau sylweddol i wasanaethau. Bydd penderfyniadau o'r fath yn aml yn ddadleuol ac yn creu diddordeb sylweddol yn lleol a gallant gael effaith sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau dan sylw.

3 O fis Ebrill 2016, bydd yn ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn datgan: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) pan fydd yn penderfynu ar newidiadau sylweddol i'w wasanaethau. Ystyr newid o'r fath yw unrhyw newid sylweddol i'r modd y caiff gwasanaeth ei ddarparu a/neu unrhyw newid sylweddol i'r profiad y mae defnyddwyr gwasanaeth allanol yn ei gael pan fyddant yn defnyddio'r gwasanaeth. Er enghraifft, gallai gynnwys newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth, neu gost y gwasanaeth.

5 Gan ddefnyddio fframwaith diwygiedig y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), 'Delivering good governance in local government', fel

[1] CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007.

[2] **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,** Llywodraeth Cymru.

safon briodol, mae'r adolygiad hwn yn rhoi llinell sylfaen i'r Cyngor er mwyn iddo fynd ati i gynllunio gwelliannau pellach. Yn yr asesiad hwn a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, buom yn edrych ar agweddau ar drefniadau penderfynu yng nghyswllt amrywiaeth o gynigion sylweddol i newid gwasanaethau. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau i wasanaethau y buom yn edrych arnynt yn cynnwys:

- Adolygu'r modd y defnyddir Canolfan Bert Denning[3] i gynyddu incwm
- Rhoi technoleg newydd ar waith i hwyluso modelau digidol
- Adolygu trefniadau y tu allan i oriau
- Rhoi'r gorau i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- Cyfrannu llai at gytundeb lefel gwasanaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Adolygu darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid
- Adolygu cytundeb lefel gwasanaeth Gwasanaeth Addysg Awyr Agored Gwent
- Rhoi'r gorau i'r gwasanaeth rheoli plâu

6 Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o'r penderfyniadau i newid gwasanaethau. Yn hytrach, fe'u defnyddiwyd fel enghreifftiau i ddysgu yn eu sgil ac yn sail ar gyfer y modd y bydd y Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â newid gwasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad **bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i benderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ond nid yw'r rhain wedi'u datblygu'n llawn eto ac ni chânt eu defnyddio'n effeithiol bob amser.**

# Cynigion ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r meysydd y mae angen eu gwella a nodwyd trwy ein hadolygiad.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Gellid cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor trwy wneud y canlynol: | |
| P1 | Darparu rhagor o hyfforddiant ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau bod swyddogion a'r Aelodau yn deall cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf. |

[3] Mae Canolfan Bert Denning, Brynmawr yn ganolfan bwrpasol sy'n darparu ar gyfer oedolion ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd dwys a lluosog sydd ag angen cymorth gan staff arbenigol.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| P2 | Gwella ansawdd yr arfarnu opsiynau trwy ddarparu gwybodaeth sy'n dangos sut yr aed ati i werthuso'r opsiynau. |
| P3 | Sicrhau bod adroddiadau ynghylch cynigion i newid gwasanaethau yn cynnwys canlyniadau ymgynghori ac ymgysylltu ac yn dangos sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain cyn cyflwyno'r cynigion. |
| P4 | Disgrifio, ar adeg penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau, sut y bydd effaith y newidiadau arfaethedig yn cael ei mesur a'i monitro. |

# Adroddiad cryno

## Mae gan y Cyngor weledigaeth a fframwaith ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ond nid yw'n glir eto beth fydd ffurf na maint darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol

8 Cytunodd y Cyngor ar ei 'Egwyddorion Dylunio Sefydliadol a Model Gweithredu yn y Dyfodol' ym Mai 2014. Adnewyddodd y rhain yn 'Strategaeth Datblygu Sefydliadol 2015-2020' sy'n disgrifio uchelgais y Cyngor i fod 'yn rhagweithiol, gan edrych ymlaen at ddeall cyfleoedd partneriaeth posibl yn genedlaethol a rhanbarthol a chyfleoedd lleol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i ddiwallu anghenion y gymuned yn well.'

9 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol yn y blynyddoedd diweddar i bwysau allanol i leihau gwariant a gwella gwasanaethau. Y prif sbardunau i newid gwasanaethau yn y Cyngor fu'r gostyngiad yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, newidiadau deddfwriaethol a rheoliadau allanol.

10 Mae'r Cyngor yn disgrifio'i flaenoriaethau gwella strategol yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol: Cam 1 2016-17 fel a ganlyn:

- sicrhau bod safonau addysg yn gwella yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4; a
- sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor.

11 Sefydlwyd 'Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent' gan y Cyngor yn 2013 gan ddisgrifio'r strwythurau a'r prosesau ar gyfer rheoli a monitro newidiadau i wasanaethau. Mae Fframwaith Gwella Rheoli Perfformiad y Cyngor yn disgrifio'r broses cynllunio busnes, y rolau a'r cyfrifoldebau a'r trefniadau cymorth, sy'n elfennau allweddol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni.

12 Yn 2014-15, comisiynodd y Cyngor ymgynghorwyr allanol i ddarparu adnoddau ychwanegol a nodi cyfleoedd i newid gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd pellach.

13 Roedd pob cynnig i newid gwasanaethau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn gysylltiedig â'r broses pennu cyllideb a nodwyd y manylion yn yr achosion busnes. Bwriad y Cyngor yw bod yr achosion busnes hyn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau er mwyn gwneud penderfyniadau.

14 Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei brosesau newid gwasanaethau, ond nid yw'r egwyddor wedi'i hymgorffori eto yng nghamau cychwynnol llunio cynigion i newid gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn gofyn bod rheolwyr yn ystyried dyletswyddau datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb wrth lunio achosion busnes ar gyfer newid gwasanaethau; yn arbennig, mae gofyn iddynt ystyried yr effaith ar bobl neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae'r Cyngor hefyd wedi hyfforddi tua 60 o swyddogion a darparu sesiynau briffio i'r

Aelodau ynghylch cyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac nid yw pob swyddog ac Aelod wedi derbyn yr hyfforddiant eto.

15 Yn ystod ein gwaith maes, cawsom wybod nad oes gan y Cyngor yr adnoddau i wneud rhai o'r newidiadau sylweddol y mae cynghorau mwy yn gallu eu gwneud oherwydd ffactorau demograffig cynhenid sydd, er enghraifft, yn peri bod galw mawr am wasanaethau'r Cyngor a chyfyngu ar gyfleoedd i greu incwm ychwanegol trwy godi ffioedd a thaliadau. Yn draddodiadol, mae sylfaen Treth y Cyngor yn isel ym Mlaenau Gwent sy'n cyfyngu ar allu'r Cyngor i greu llawer mwy o incwm trwy gynyddu Treth y Cyngor. Yn 2014, roedd y Cyngor wedi cydweithio â Chyngor cyfagos i gyflwyno cynnig i Lywodraeth Cymru yn awgrymu trefniadau uno. Er nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r cynnig, mae'r cyflwyniad, ynddo'i hun, yn dangos bod y Cyngor wedi ymrwymo i newid ar raddfa eang. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo o hyd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ond nid yw'n glir eto beth fydd ei rôl o ran ffurf a maint darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.

## Yn gyffredinol, mae'r swyddogion a'r Aelodau’n dangos dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran penderfynu ar newidiadau i wasanaethau a'u cyflawni ac mae'r Cyngor yn darparu cymorth parhaus i wella eu heffeithiolrwydd

16 Diweddarwyd Cyfansoddiad y Cyngor yn 2016. Mae'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau a'r swyddogion yng nghyswllt trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

17 Mae perthynas waith gadarnhaol rhwng Swyddogion a'r Aelodau yn sail i ddull y Cyngor o ddatblygu cynigion i newid gwasanaethau. Roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau a ymatebodd i'n harolwg llywodraethu fel rhan o'r adolygiad hwn yn cytuno, yn gyffredinol, fod perthynas waith adeiladol rhyngddynt ag uwch-swyddogion y Cyngor. Ar ben hynny, roedd pob swyddog a'r rhan fwyaf o'r Aelodau a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac yr oeddynt i gyd yn dweud eu bod yn deall trefniadau'r Cyngor o ran penderfyniadau dirprwyedig.

18 Yn ein **Hadolygiad llywodraethu gyda ffocws ar Graffu**, yn Ebrill 2016, gwelsom ddarlun cymysg o ran dealltwriaeth yr Aelodau o'r rolau a'r cyfrifoldebau. Yn arbennig, nodwyd yn yr adroddiad fod anghysondebau o ran presenoldeb yr Aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol mewn cyfarfodydd craffu ac anghysondeb o ran ansawdd y cadeirio a'r cwestiynu mewn cyfarfodydd craffu. Nid yw amseriad ein hadolygiad presennol wedi rhoi digon o gyfle i'r Cyngor ddangos gwelliannau yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i ehangu Rhaglen Datblygu'r

Aelodau, ac mae'n bwriadu gwerthuso effaith ei hyfforddiant er mwyn ymgorffori dysgu a gwella parhaus.

19 Mae'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn adolygu'r adroddiadau cyn eu rhoi i'r Aelodau, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cyfansoddiad a'r gyfraith. Mae swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd ffurfiol i'r aelodau, megis cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu, er mwyn ateb cwestiynau ynghylch gweithdrefnau wrth i'r cyfarfodydd fynd rhagddynt. Mae modd i'r pwyllgorau craffu alw eitemau i mewn os credant fod angen craffu ymhellach arnynt, ond anaml iawn y bydd yr Aelodau Craffu ym Mlaenau Gwent yn defnyddio'r camau hyn, sy'n rhan o ddulliau rheoli ymarferol y broses benderfynu.

## Mae'r Cyngor yn ystyried amryw o opsiynau wrth benderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau ond nid yw'r rhain yn cael eu hegluro'n llawn bob amser mewn adroddiadau ac achosion busnes

20 Roedd y rhan fwyaf o'r swyddogion, yr Aelodau a'r partneriaid a ymatebodd i'n harolwg llywodraethu fel rhan o'r adolygiad hwn yn cytuno bod y Cyngor yn rhoi sylw i bob opsiwn posibl wrth ystyried cynnig i newid gwasanaethau.

21 Mae'r adroddiadau a'r achosion busnes ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau a roddir i’r Aelodau yn cynnwys amryw o opsiynau. Er enghraifft, roedd yr achos busnes a oedd yn cynnig rhoi'r gorau i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cynnwys pum opsiwn, ac roedd y cynnig i leihau cyfraniad y Cyngor at gytundeb lefel gwasanaeth Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys tri opsiwn. Yn gyffredinol, mae swyddogion yn ystyried opsiynau wrth ddatblygu cynigion i newid gwasanaethau ac yn cynnwys gwybodaeth yn yr adroddiadau a'r achosion busnes i gefnogi'r opsiwn a ffafrir.

22 Er bod achosion busnes y Cyngor yn disgrifio'r hyn y ceisir ei gyflawni yn sgil y newidiadau arfaethedig i wasanaethau, nid ydynt yn disgrifio sut, nac i ba raddau, y bydd pob opsiwn yn cyflawni'r gwelliannau hyn. Byddai cynnwys y manylion hyn yn darparu gwybodaeth well ar gyfer y broses benderfynu ac yn dryloyw i bob golwg. Fodd bynnag, mae'r achosion busnes a'r adroddiadau yn cynnwys naratif sy'n egluro pam y mae swyddogion yn ffafrio opsiwn penodol.

23 Nid yw'r Cyngor yn cynnwys canfyddiadau'r ymgynghori mewn achosion busnes ac adroddiadau bob amser ac o ganlyniad, ni fydd yr wybodaeth hon ar gael i’r Aelodau wrth iddynt wneud penderfyniadau, ac nid yw hyn yn dryloyw. Er enghraifft, roedd y Cyngor wedi ymgynghori â Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch y cynnig i leihau'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ond nid oedd sylwadau na barn y Comisiynydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

24 Nid yw pob adroddiad ac achos busnes yn rhoi manylion y costau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn newid gwasanaeth ac nid oes cofnod manwl o'r graddfeydd amser a'r prif gerrig milltir ar gyfer cyflawni gwahanol gamau’r newidiadau. Hefyd, nid yw dull ffurfiol y Cyngor o gynllunio ar gyfer newid gwasanaeth wedi'i integreiddio yn y broses benderfynu; caiff ei ystyried yn annibynnol trwy broses cynllunio busnes y Cyngor, fel y disgrifir yng nghanllawiau'r Fframwaith Cynllunio a Gwella Rheoli Perfformiad. Fodd bynnag, gan fod y broses hon yn digwydd yn nes ymlaen yn y flwyddyn, ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud, mae hyn yn golygu na fydd yr Aelodau’n deall goblygiadau tebygol y newidiadau arfaethedig ar lefel uchel yn ystod y broses benderfynu. Mae diffyg gwybodaeth fel hyn yn y cyfnod penderfynu yn atal yr Aelodau rhag rhoi blaenoriaeth i adroddiadau dilynol ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn yn eu Blaenraglenni Gwaith.

25 Mae trefniadau'r Cyngor o ran penderfynu ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau yn cynnwys eu herio trwy nifer o fecanweithiau. Fodd bynnag, gallai'r rhain fod yn fwy tryloyw, er enghraifft, trwy gofnodi canlyniad sesiwn pryd y lluniwyd rhestr fer o’r cynigion i newid gwasanaethau a fydd yn symud ymlaen trwy'r broses benderfynu ffurfiol.

26 Mae Timau Rheoli'r Cyfarwyddiaethau, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol yn trafod cynigion i newid gwasanaethau yn fuan wedi llunio'r cynnig amlinellol cychwynnol. Mae'n bosibl na fydd rhai prosiectau yn mynd ymlaen i'r broses benderfynu ffurfiol, ac oni fydd y Cyngor yn cadw cofnod clir o'r holl gynigion, gan ddangos y rhai sy'n mynd rhagddynt a'r rhai nad ydynt, mae'n bosibl na fydd yr elfen hon o'r trefniadau yn gwbl dryloyw.

27 Wrth drafod newidiadau arfaethedig i wasanaethau, mae gan y pwyllgorau craffu rôl allweddol o ran herio penderfyniadau a chadernid y cynigion, ac ystyried dewisiadau amgen. Yn ein **Hadolygiad Llywodraethu gyda Ffocws ar Graffu** yn Ebrill 2016, daethom i'r casgliad bod yr Aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol a'r uwch-swyddogion yn glir yn eu meddwl ynghylch sut yr oeddynt yn cyfrannu at swyddogaeth graffu y Cyngor. Yn ymarferol, fodd bynnag, nid oedd gwahoddiadau i'r Aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol ddod i gyfarfodydd craffu yn cael eu hestyn yn gyson nac yn unol â Llawlyfr Cymorth y Pwyllgor Gweithredol. O ganlyniad, nid yw trefniadau craffu y Cyngor yn gwbl effeithiol wrth ystyried newid gwasanaethau.

28 Mae'r broses ffurfiol o benderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau yn dryloyw. Mae cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor yn dangos sut y bu'r Aelodau yn trafod ac yn diwygio cynigion i newid gwasanaethau. Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd ffurfiol i'w gweld ar wefan y Cyngor, a gall aelodau o'r cyhoedd neu randdeiliaid fynd i arsylwi ar gyfarfodydd yn bersonol a siarad, o bosibl, mewn cyfarfodydd Craffu os bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn eu gwahodd i wneud hynny.

29 Yn rhan o'r broses benderfynu ffurfiol, mae'r Cyngor yn asesu cynigion i newid gwasanaethau gan ddefnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Cyflwynodd dempled newydd ar gyfer rhoi adroddiadau sy'n cynnwys adran ynghylch pum dull

o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[4]. Mae hyn yn hoelio'r sylw ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ystod y broses benderfynu ond nid yw'n glir i ba raddau y mae'r egwyddor hon yn sbarduno newid gwasanaethau.

## Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n systematig â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau ac mae'n gallu dangos ei fod yn gwrando ar eu barn, ond nid yw'r adroddiadau ac achosion busnes yn egluro bob amser sut y bydd barn rhanddeiliaid yn cael ei hystyried wrth benderfynu newid gwasanaethau

30 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid. Yn Ionawr 2016, rhoddodd swyddogion ddiweddariad i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ynghylch y broses pennu cyllideb a allai arwain at newid gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu hefyd â phartneriaid y bydd y cynlluniau i newid gwasanaethau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, fel y bydd hynny'n briodol. Roedd yr holl bartneriaid a ymatebodd i'n harolwg llywodraethu fel rhan o'r adolygiad hwn yn cytuno bod perthynas waith adeiladol rhyngddynt ag uwch-swyddogion y Cyngor.

31 Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â thrigolion lleol a rhanddeiliaid gan ddefnyddio'r broses 'Gadewch i ni Siarad'[5], sy'n disgrifio'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, yn gofyn barn pobl ar arbedion posibl yn y gyllideb ac, yn fwy diweddar, yn egluro penderfyniadau'r Cyngor o ran y gyllideb sydd i ddod. Cyflwynir yr wybodaeth hon i'r Aelodau yn ystod proses pennu'r gyllideb a gall y Cyngor ddangos sut y mae wedi ystyried adborth gan bobl leol wrth bennu'r gyllideb.

32 Wrth bennu cyllideb 2015-16, rhoddodd y Cyngor ddiweddariad i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ynghylch digwyddiadau Gadewch i ni Siarad, ynghyd â'r llinellau amser o ran pennu'r gyllideb. Yn ogystal, cysylltodd y Cyngor â rhanddeiliaid penodol i drafod sut y byddai'r arbedion cyllideb arfaethedig yn effeithio ar eu sefydliadau. Er enghraifft, ymgynghorodd y Cyngor â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch y cynnig i leihau'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Cyhoeddodd y Cyngor wybodaeth ar ei wefan, yn

[4] Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n dweud wrth sefydliadau sut y dylent fynd ati i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae'n nodi'r pum dull o weithio canlynol y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried er mwyn helpu i gynnal datblygu cynaliadwy: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Rhagor o wybodaeth am y Ddeddf.

[5] Bwriad y Cyngor yw bod y rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd, Gadewch i ni Siarad, yn gyfle i drigolion lleol a rhanddeiliaid ddylanwadu ar gynigion y gyllideb.

y cyfryngau lleol ac mewn llyfrgelloedd, a chynhaliwyd cyfarfodydd â grwpiau a sefydliadau lleol i egluro sut y bu'r Cyngor yn ystyried eu hadborth trwy broses Gadewch i ni Siarad.

33 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu yn gymesur â'i adnoddau. Mae'n gallu dangos sut yr ystyriwyd yr adborth o gynllun ymgysylltu Gadewch i ni Siarad, a darparu tystiolaeth ei fod yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol i drafod cynlluniau i newid gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw'r achosion busnes y mae'r Aelodau yn eu cael yn cynnwys adborth gan randdeiliaid fel mater o drefn. O ganlyniad, ni fydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r wybodaeth hon wrth wneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau unigol.

34 Roedd y rhan fwyaf o'r partneriaid a ymatebodd i'n harolwg llywodraethu fel rhan o'r adolygiad hwn yn cytuno bod y Cyngor, wrth ystyried newid gwasanaethau, yn cysylltu'n effeithiol â hwy fel partneriaid allweddol. Teimlai pob un fod modd iddo ddylanwadu ar gynigion y Cyngor i newid gwasanaethau a'i bod yn hawdd cael gwybod pa benderfyniadau allweddol a wnaed gan y Cyngor.

## Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n systematig i fonitro effaith ei benderfyniadau i newid gwasanaethau

35 Fel rhan o'i broses benderfynu, mae'r Cyngor yn nodi mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y bobl neu'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig y mae'r cynlluniau i newid gwasanaethau yn debygol o effeithio arnynt. Fodd bynnag, nid yw'r achosion busnes yn dangos pa wybodaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r Asesiadau Effaith na phwy y mae'r Cyngor wedi ymgynghori â hwy. Ar ben hynny, ni nodir sut y dylai rheolwyr fesur effaith bosibl y newidiadau i wasanaethau, na sut y dylent werthuso'r union effaith, ac ni nodir p'un a ddylai'r Aelodau gael adroddiadau ar effaith eu penderfyniadau ac os dylent, sut a phryd y dylai hynny ddigwydd.

36 Nid oes digon o fanylion bob amser yn yr achosion busnes ynghylch yr effaith y bwriedir i'r penderfyniadau ei chael na phwy sy'n gyfrifol am adolygu'r effaith ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith. O ganlyniad, ni all y Cyngor werthuso'n ffurfiol p'un a yw'r newidiadau wedi cyflawni'r effaith a fwriadwyd.

37 Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi dechrau cyfarfod i drafod eu Blaenraglenni Gwaith er mwyn nodi cyfleoedd i fonitro effaith y newidiadau y cytunwyd arnynt. Yn ymarferol, fodd bynnag, nid yw'r pwyllgorau craffu yn cynnal gwerthusiad effeithiol o effaith y newidiadau i wasanaethau ar ôl eu cyflwyno, yn rhannol oherwydd bod diffyg manylion yn yr achosion busnes yn eu dal yn ôl.

38 Fodd bynnag, mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro'r modd y cyflawnir yr arbedion cyllideb a ragwelwyd. Mae'r 'Tîm Rheoli Corfforaethol Ehangach' yn monitro cynlluniau arbed arian ar lefel swyddogion. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu (Trosolwg) yn derbyn adroddiadau ariannol a monitro perfformiad bob chwarter sy'n nodi'r camau a gymerwyd o ran cyflawni cynlluniau arbedion.

# Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau penderfynu ac yn cyflwyno gwelliannau er mwyn rhoi sylw i'r gwendidau a nodir

39 Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau penderfynu yn rheolaidd. Bu’n diweddaru'r Cyfansoddiad ym Mawrth 2016 ac mae'n adolygu agweddau eraill ar ei drefniadau i ddatblygu a monitro prosiectau effeithlonrwydd ariannol.

40 Yn ogystal, bu'r Cyngor yn adolygu ei brosesau o ran cyflawni prosiectau effeithlonrwydd ariannol yn 2014-15 a 2015-16 er mwyn nodi cyfleoedd i wella'r trefniadau ymhellach. Bu’r adolygiadau hyn yn gofyn am adborth gan y swyddogion a'r Aelodau a fu'n gysylltiedig â datblygu, cyflwyno a gweithredu newidiadau i wasanaethau a phrosiectau effeithlonrwydd, ac yn argymell camau i wella'r trefniadau. Nododd adolygiad 2015-16 y camau cadarnhaol a gymerwyd o ran rhoi argymhellion adolygiad 2014-15 ar waith, gyda 10 o'r 12 argymhelliad wedi'u gweithredu'n llawn a dau wedi'u gweithredu'n rhannol.

41 Mae'r Cyngor wedi sefydlu grwpiau i ategu'r trefniadau llywodraethu presennol i gynorthwyo â chyflawni newidiadau i wasanaethau. Diddymwyd rhai o'r grwpiau hyn yn nes ymlaen wedi iddynt ateb y diben. Er enghraifft, yn 2014, sefydlwyd y Cynghrair Newid a ddaeth ag Aelodau ac uwch-swyddogion ynghyd i hyrwyddo newid er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi adolygu a diddymu'r grŵp hwn gan gyfrif ei fod wedi ateb y diben. Hefyd, sefydlwyd Grŵp Llywio Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent (y Grŵp Llywio) gan y Cyngor i nodi camau adfer y gallai rheolwyr prosiectau eu cymryd er mwyn sicrhau bod prosiectau effeithlonrwydd ariannol yn parhau i gael eu cyflawni mewn modd amserol. Mae'r Cyngor wedi adolygu diben y Grŵp Llywio bellach ac wedi ymgorffori ei swyddogaethau yng ngwaith y Tîm Rheoli Corfforaethol Ehangach.

42 Mae'r Cyngor yn newid ei brosesau penderfynu wrth iddo nodi cyfleoedd i wella. Er enghraifft, sefydlwyd trefniadau i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chynhelir cyfarfodydd craffu ar y cyd lle bydd hynny'n debygol o wella effeithlonrwydd y craffu.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru